You are not viewing the production site.



# Budd-daliadau Tai a Gostwng y Dreth Gyngor

## Cyflwyniad

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu budd-daliadau tai a gostyngiad y dreth gyngor yn ei ardal leol yn unol â'r ddeddf berthnasol, rheoliadau a chanllawiau'r llywodraeth. Os ydych o'r farn nad yw'r cyngor wedi gwneud hyn, efallai y byddwn yn gallu helpu gyda'ch cwyn.

## Yr hyn gallwn ei wneud

Byddwn yn gallu:

- edrych ar gwynion bod y Cyngor wedi methu rhoi gwybod i chi'n briodol am benderfyniad neu eich hawl i apelio yn erbyn penderfyniad;
- cadarnhau bod y Cyngor wedi cymryd camau i adennill gordaliad gennych yn deg a thrwy ddilyn y rheolau;
- Ystyried materion fel oedi afresymol, methu cydnabod eich apêl, methu cadw cofnodion priodol, cyfathrebu gwael neu wneud

You are not viewing the production site.

## Yr hyn nad ydym yn gallu ei wneud

Ni fyddwn yn gallu:

- eich helpu i wneud hawliad
- dweud wrth y Cyngor am gynyddu'r swm yr ydych yn ei dderbyn
- dweud wrth y Cyngor am leihau'r swm sy'n ddyledus gennych
- ymyrryd ym mhenderfyniad y Cyngor i ddwyn achos cyfreithiol yn eich erbyn am dwyll
- fel arfer, edrych ar gŵyn lle mae neu lle oedd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i dribiwnlys statudol

## Materion i gadw mewn cof

Os ydych o'r farn bod penderyniad y Cyngor yn anghywir, dylech ysgrifennu at y Cyngor yn y lle cyntaf. Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys, efallai y bydd gennych hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Cyngor i dribiwnlys statudol.

Os ydych chi'n gwneud cais am fudd-daliadau gwladol eraill, e.e. lwfans cymorth cyflogaeth neu daliadau annibyniaeth personol ac nad ydych yn fodlon â'r gwasanaeth rydych wedi ei gael, dylech gysylltu â'r swyddfa rydych chi wedi bod yn delio â hi er y cychwyn. Ar ôl hynny, efallai y byddwch yn gallu cwyno wrth **Ombwdsmon y Gwasanaeth Seneddol ac Iechyd**. Gallwch eu ffonio ar **0345 015**

You are not viewing the production site.
www.Ombudsman.org.uk

## Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth fwy manwl am ostyngiadau'r Dreth Gyngor a budd-dal Tai yn www. gov.uk

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am apelio yn erbyn penderfyniad cyngor ynghylch budd-dal tai yn www.justice.gov.uk/tribunals/sscs

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am apelio yn erbyn penderfyniad cyngor ynghylch gostyngiad treth cyngor yn www.Valuations-Tribunal-Wales.org.uk
Gallwch hefyd dderbyn cyngor annibynnol, di-dâl ar eich hawliau lles gan eich **Cyngor ar Bopeth** leol, manylion yn https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

# Hawdd ei Ddarllen

Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Thai

You are not viewing the production site.